# PWYLLGOR PENSIYNAU, 23.03.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, John G. Jones, John W. Jones

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Simon Glyn a'r Cynghorydd Margaret Lyon (cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2011 a 9 Mawrth 2012 fel rhai cywir.

## 3. ADENNILL GORDALIADAU PENSIWN YN DILYN MARWOLAETH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Pensiynau na hawlir gordaliadau pensiwn £50 (net) neu lai yn dilyn marwolaeth pensiynwyr – hyn dan bolisi gweinyddol presennol y Gronfa a gymeradwywyd gan y pwyllgor hwn yn 1998. Pan mae taliadau dilynol yn ddyledus, hawlir unrhyw ordaliad o'r taliadau hynny. Os y gweithredir yr un graddfa o godiadau yn erbyn y £50 hwn ac ar bensiwn o'r un gwerth yn daladwy ar 1 Ebrill 1998, byddai'r pensiwn hwnnw yn £74.37 o 9 Ebrill 2012.

Nododd, ers cyflwyno'r cynllun monitro marwoldeb "ATMOS" a gymeradwywyd gan y pwyllgor hwn ar 29 Mawrth 2010, 'roedd nifer y gordaliadau wedi gostwng o ganlyniad i dderbyn yr adroddiadau marwolaethau misol. 'Roedd gofyn am ad-daliad o symiau gweddol isel yn dilyn marwolaeth yn fater sensitif ac oherwydd natur profiant yn cymryd amser i'w ddatrys ac ddim yn gost effeithiol o ran adnoddau. Yn ogystal, gallai rhai ysgutorion neu ystadau fethu ymateb i gyfathrebiadau neu wrthod ad-dalu. O ganlyniad, gofynnwyd am gyngor yr Archwiliwr Mewnol ar y lefelau ac amgylchiadau lle nad oes gwerth mewn erlid ad-daliadau, a rhoddodd fanylion am ddyfyniad o adroddiad yr archwiliwr.

Cyfeiriodd at ddehongliad Hymans Robertson o Ddeddf Cyllid 2004 fel ag y mae'n berthnasol i dreth ar bensiynau, sef bod CThEM yn ystyried gordaliadau pensiwn nad yw'n ddyledus dan reoliadau'r cynllun yn "daliadau anawdurdodedig" ac yn deilwng o gael ei drethu. Fodd bynnag, maent yn datgan hefyd na fyddai CThEM yn erlid treth ar ordaliadau unigol o lai na £250.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi canlynol sy'n ystyried adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a goblygiadau Deddf Cyllid 2004 –**
**a) O 1 Ebrill 2012 dim ond gordaliadau uwch na £100 a erlidir yn dilyn marwolaeth pensiynwr lle nad oes taliadau dilynol.**
**b) Bod y £100 i'w gynyddu'n flynyddol yn Ebrill yn unol â gorchymyn codi pensiynau a hyd at y bunt lawn agosaf hyd y cyrhaeddir gwerth terfyn trethadwy'r CThEM ac i godi drachefn os codir y terfyn hwnnw.**
**c) Bod y Rheolwr Pensiynau i adolygu'r canllawiau presennol a sefydlu canllawiau eglur yn manylu'r gwahanol gamau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gordaliadau ac wrth ystyried y ddau bwynt uchod.**
**ch) Bod y Rheolwr Pensiynau i ymgynghori â'r uned gyfreithiol i lunio llythyr i'w anfon i'r banciau i geisio adennill gordaliadau oddiwrthynt sy'n ormodedd i'r lefel terfyn.**

## 4. BUDDSODDIAD IS-ADEILADWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cynhaliwyd cyfarfod chwarterol Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 16 Chwefror 2012 yn Llundain a thrafodwyd adroddiad Hymans Robertson ar opsiynau ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol mewn is-adeiladwaith. Barn y panel oedd y dylid buddsoddi mewn cronfa o gronfeydd is-adeiladwaith gyda Partners Group. Gan bod hyn yn fuddsoddiad uniongyrchol, nid oes angen mynd trwy'r broses caffael.

**PENDERFYNWYD cadarnhau buddsoddiad uniongyrchol mewn is-adeiladwaith gyda Partners Group, yn unol â barn y Panel Buddsoddi.**

## 5. DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Hysbysodd y Rheolwr Buddsoddi bod angen adolygu'r datganiad yn dilyn penderfyniadau buddsoddi diweddar.

Nododd bod Atodiad 1 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwahanol fath o fuddsoddiadau. Yn y pwyllgor hwn ar 25 Chwefror 2008, penderfynwyd bod y cyfyngiad ar y swm y gellir ei fuddsoddi mewn unrhyw gontract yswiriant unigol yn cael ei godi i 35% gan adolygu'r penderfyniad ymhen tair blynedd. Felly mae angen ystyried os yw 35% yn parhau'n addas ar gyfer y Cronfa Bensiwn.

Nododd ymhellach mai cyfyngiad arall yn y rheoliadau yw cyfanswm y cyfraniadau i bartneriaethau. Cyfyngiad Cronfa Bensiwn Gwynedd ar hyn o bryd yw –

- Holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol – 2%
- Holl gyfraniadau i bartneriaethau – 5%

Mae'r Gronfa Bensiwn gyda 5% o'i buddsoddiadau mewn ecwiti preifat a strwythurir fel partneriaethau. Wrth benderfynu buddsoddi mewn is-adeiladwaith, sydd hefyd wedi ei strwythuro fel partneriaethau, mae angen ailystyried cyfyngiadau ar gyfer partneriaethau. Y bwriad tymor hir yw cael 5% o fuddsoddiadau'r Gronfa mewn is-adeiladwaith ac oherwydd hyn, cyngor Hymans Robertson yw codi'r cyfyngiad ar gyfer yr holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol i 5% a'r cyfyngiad ar gyfer yr holl gyfraniadau i bartneriaethau i 15%, sydd yr uchafsymiau a ganiateir dan y rheoliadau.

Tynnodd sylw bod y rheoliadau'n rhoddi hawl i awdurdodau gweinyddol gynyddu'r canrannau a ddelir mewn rhai mathau o fuddsoddiadau i'r uchafswm a nodir yn y rheoliadau. Cyn y gallai'r Awdurdod Gweinyddol benderfynu cynyddu'r cyfyngiadau buddsoddi, mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rhai gofynion a rhoddodd fanylion amdanynt i'r pwyllgor.

Gofynnwyd am gyngor ymgynghorydd y Gronfa ar y cynigion i gynyddu'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau a derbyniwyd ei ymateb fel â ganlyn –

- Cadw'r cyfyngiad buddsoddi mewn unrhyw gontract yswiriant unigol i 35%.
- Cynyddu'r cyfyngiadau ar yr holl gyfraniadau i bartneriaethau unigol i 5%
- Cynyddu'r cyfyngiadau ar yr holl gyfraniadau i bartneriaethau i 15%

Nododd y swyddog yr adolygir y cyfyngiadau hyn gan y pwyllgor bob tair blynedd fel rhan o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Mewn perthynas â'r adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, hysbysodd y swyddog bod yr adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad gyda budd-gyfranogwyr cyn mabwysiadu'r Datganiad terfynol. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn digwydd cyn y cyfarfod blynyddol nesaf yng Ngorffennaf 2012. Er mwyn gwneud hyn, awgrymodd bod adolygiad cychwynnol o'r Datganiad yn cael ei gynhyrchu gan y swyddogion ac yna bwriedir cylchredeg y drafft i'r cyflogwyr yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2012. Cyflwynir fersiwn terfynol o'r Datganiad yn dilyn yr ymgynghoriad, i'r pwyllgor ym Medi 2012 am gymeradwyaeth.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn y cyngor a nodir uchod sef bod y cyfyngiad ar y swm y gellir ei fuddsoddi mewn unrhyw gontract yswiriant unigol yn cael ei gadw ar 35% a codi'r cyfyngiadau ar yr holl gyfraniadau i bartneriaethau unigol i 5% a'r holl gyfraniadau i bartneriaethau i 15%**
**b) Bod y cyfyngiadau uchod yn weithredol hyd nes y cymerir penderfyniad i'w diddymu gan y pwyllgor gan adolygu'r penderfyniad cyn 31 Mawrth 2015.**
**c) Er gweithredu'r penderfyniad, bydd angen newid cymal 5.3 o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi gan nodi y pennwyd y cyfyngiadau fel â ganlyn –**

- **Buddsoddi mewn unrhyw gontract yswiriant – 35%**
- **Holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol – 5%**
- **Holl gyfraniadau i bartneriaethau – 15%**

**ac yna cyhoeddi'r datganiad diwygiedig ar 26 Mawrth 2012**
**ch) Bod y swyddogion i gynhyrchu adolygiad cychwynnol o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ac yna cylchredeg y drafft i'r cyflogwyr yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2012.**

## 6. NEWIDIADAU I'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y rhoddwyd gwybodaeth am newidiadau arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn adroddiadau blaenorol i'r pwyllgor hwn, ac yn y cyfarfod ar 25 Tachwedd 2011 cytunwyd ar yr ymateb i'r ddogfen ymgynghorol. Yn ystod y broses ymgynghori, arwyddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol a'r undebau llafur perthnasol, penawdau'r cytundeb ar yr egwyddorion y bydd yn rheoli dyluniad y cynllun, rheolaeth costau cyfredol a llywodraethu'r cynllun newydd. Datganodd y Llywodraeth yn glir bod yr egwyddorion hyn yn datgan ei safbwynt terfynol ar brif elfennau dyluniad y cynllun.

Nododd bod yr 17 egwyddor a osodwyd ar gyfer y cynllun newydd yn cynnwys egwyddorion y dyluniad newydd yn ogystal â'r mecanwaith rheolaeth a llywodraethu. Rhoddodd fanylion am baramedrau craidd dyluniad y cynllun newydd cytunedig. Y prif

egwyddor mewn perthynas i reoli a llywodraethu yw'r capiau cyflogwyr (gyda gwerth nenfwd a llawr) i'w gosod trwy gytundeb gyda'r prif rhanddeiliaid.

'Roedd y cynigion gwreiddiol yn dilyn Adroddiad Hutton, yn gofyn am godiadau mewn cyfraniadau gweithwyr yn Ebrill 2012 ond o dan y cytundeb newydd nid yw hynny'n wir ar gyfer Cynllun Llywodraeth Leol. Nododd y gweithredir yr holl newidiadau angenrheidiol i'r cynllun ar yr un pryd yn 2014 yn hytrach na chodi cyfraniadau gweithwyr yn 2012 a newidiadau eraill i'r cynllun yn 2015. 'Roedd opsiwn i beidio cynyddu cyfraniadau gweithwyr petai modd darganfod yr arbedion mewn dulliau eraill. Cynhwysir dewisiadau i unigolion a byddai hyn ag effaith sylweddol ar weinyddiaeth y cynllun. Er hynny, mae'r egwyddorion o gynllun cyfartaledd gyrfa ac oedran ymddeol diweddarach yn parhau'n hanfodol ar gyfer y cynllun newydd.

Bydd angen cael y rheoliadau mewn lle erbyn 30 Mawrth 2013 er mwyn i actiwariaid y cronfeydd gymryd effaith y newidiadau i'r cynllun i ystyriaeth a chaniatau cyfarfod â'r amcanion tymor byr yn gosod yr amserlen i weithredu'r holl newidiadau erbyn 31 Mawrth 2014 a rhoddodd fanylion am y pedwar cam o fewn yr amserlen.

Nododd aelod y dylid cael manylion am y nifer o weithwyr sydd heb ymuno â'r Gronfa Bensiwn a'r rhai sydd wedi gadael.

**PENDERFYNWYD**
**a) Nodi'r newidiadau i'r cynigion a chyflwyno adroddiadau pellach i'r pwyllgor wrth i'r cynllun newydd gael ei ddatblygu.**
**b) Bod y Rheolwr Pensiynau i baratoi adroddiad i'r pwyllgor ar ôl yr etholiad yn amlygu faint o bobl ifanc Cyngor Gwynedd sydd ddim yn ymaelodi â'r Cynllun Pensiwn gan awgrymu hefyd beth y gellid ei wneud i annog cyflogwyr i hybu eu gweithwyr i ymuno â'r Gronfa Bensiwn.**

**7. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH BUDDSODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2012/13**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Buddsoddi Blynyddol – hyn yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor am 2012/13 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor am 2012/13 gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2012.

Nododd bod y gronfa wedi rhoddi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes"

Mewn perthynas â llif arian y gronfa bensiwn, nododd y swyddog bod mewnlif net o arian i'r gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol a chostau. Pan fydd lefel yr arian tros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi'r gronfa. Fel rheol, bydd oddeutu £5m yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol, fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rhai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod tros £20m.

Ar hyn o bryd mae holl arian tros ben y gronfa'n cael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y gronfa tros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian tros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni gyda balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg bod cronni'n caniatau manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor.

Diweddarwyd y rhestr o wrthbartion er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Mae uchafwm cyfnod y benthyciad ar gyfer sefydliadau'r Deyrnas Unedig wedi eu gostwng o ddwy flynedd i flwyddyn i adlewyrchu'r argymhellion hyn. Cymeradwywyd yr ychwanegiadau gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2012 a bydd y rhestr newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2012 ymlaen.

Ni fydd y strategaeth arfaethedig yn delio gyda'r arian sy'n cael ei ddal gan reolwyr buddsoddi'r gronfa ar gyfer setliadau.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2012/13 fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A o'r adroddiad) a'r rhestr o wrthbartion (Atodiad C o'r adroddiad).**
**b) Gwneud cais i'r Cyngor ganiatau i arian tros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2012 ymlaen.**

**8. MATERION BRYS**

(Nid oedd y materion canlynol wedi eu cynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y Cadeirydd eu cynnwys dan Adran 100B (4))b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd bod angen cyfleu'r wybodaeth i'r aelodau gan na fydd cyfarfod o'r Pwyllgor Pensiynau tan Medi 2012)

**a) Trefniadau Monitro Mis Mai 2012**
.
Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y bwriad i gynnal cyfarfod â Rheolwyr y Gronfa Bensiwn yn ystod mis Mai 2012. Yn wyneb y ffaith efallai na fydd aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau wedi ei sefydlu erbyn hynny, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ar 3 Mai 2012, awgrymodd ei fod ef ynghyd â'r Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn eu cyfarfod

**PENDERFYNWYD cytuno bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi i gyfarfod Rheolwyr y Gronfa Bensiwn ym mis Mai 2012.**

**b) Uwchraddio Meddalwedd Cyfrifiadurol**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid bod y meddalwedd cyfrifiadurol angen ei uwchraddio gan bod y system presennol yn dechrau dyddio. Golygai hyn gost ychwanegol i'r Cyngor ond ceisir cael pris cystadleuol. Nododd bod nifer o gronfeydd pensiwn cynghorau eraill wedi symud i fersiwn newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac ymddiried i'r swyddogion perthnasol wneud y trefniadau angenrheidiol i uwchraddio'r meddalwedd cyfrifiadurol.**

Ar derfyn y cyfarfod, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y ffaith mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf o'r pwyllgor cyn etholiad llywodraeth leol ym Mai 2012. Diolchodd i'r aelodau

am eu cefnogaeth tros y blynyddoedd. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am eu cydweithrediad yn ystod tymor ei gadeiryddiaeth. Dymunodd yn dda i'r aelodau hynny sy'n ymddeol ac hefyd i'r rhai sy'n ceisio cael eu hail- ethol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.15am